Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mai 2019

Amser: 14.03 - 16.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5465

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	David Rees AC (Cadeirydd) Alun Davies AC Huw Irranca-Davies AC Delyth Jewell AC Suzy Davies AC
Tystion:	Nesta Lloyd-Jones, Conffederasiwn GIG Cymru Dr Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Yr Athro Colin Riordan, Vice-Chancellor, Cardiff University Rob Stewart, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Mairwen Harris, Prifysgolion Cymru Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru Paul Harrington, Llywodraeth Cymru Simon Brindle, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Alun Davidson (Clerc) Rhys Morgan (Ail Glerc)

	Claire Fiddes (Dirprwy Glerc) Elisabeth Jones (Cynghorydd Cyfreithiol) Gareth David Thomas (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan David Melding, ac roedd Suzy Davies yn bresennol fel dirprwy.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson.

1.4 Datganodd Huw Irranca-Davies fuddiant gan ei fod yn Gadeirydd Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru

ar yr UE .

1.5 Diolchodd y Cadeirydd i Mark Reckless am ei waith fel Aelod o'r Pwyllgor.

2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

2.1 Derbyniwyd y cynnig.

3 Sesiwn briffio breifat ar fframweithiau cyffredin

3.1 Rhoddodd y tystion friff technegol i'r Aelodau ar fframweithiau cyffredin y DU.

3.2 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

4 Gwaith dilynol ar ein parodrwydd i ymadael â'r UE – sesiwn dystiolaeth 1

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

5 Gwaith dilynol ar ein parodrwydd i ymadael â'r UE – sesiwn dystiolaeth 2

5.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

6 Papurau i'w nodi

6.1 Papur i'w nodi rhif 1: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Masnach (Memorandwm Rhif 3): Y Bil Masnach

6.1.1 Nodwyd y papur.

6.2 Papur i'w nodi rhif 2: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Iwerddon yn ymwneud â'r ardal Deithio Gyffredin a'r hawliau a'r breintiau cyfatebol perthnasol

6.2.1 Nodwyd y papur.

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

8 Gwaith dilynol ar ein parodrwydd i ymadael â'r UE – ystyried tystiolaeth

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

9 Craffu ar gytundebau rhyngwladol

9.1 Cytunodd yr Aelodau i gyflwyno adroddiad ar y cytundeb ar fasnachu nwyddau rhwng Gwlad yr Iâ, Norwy a'r DU oherwydd hepgoriadau sylweddol yn ei gwmpas o'i gymharu â pherthynas bresennol yr UE â Gwlad yr Iâ a Norwy o dan gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

9.2 Trafododd yr Aelodau gytundeb y DU / Norwy ar drafnidiaeth ffyrdd rhyngwladol, a'i nodi.

9.3 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth i ofyn iddo egluro sut y mae telerau cytundeb y DU / Norwy ar drafnidiaeth ffyrdd ryngwladol yn wahanol i'r rhai ar gyfer trafnidiaeth ffyrdd o dan Gytundeb presennol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

10 Trafodaeth ar yr ymweliad arfaethedig â gogledd Cymru

10.1 Trafododd yr Aelodau yr ymweliad arfaethedig â Gogledd Cymru.

11 Trafodaeth ar Fil y Cytundeb Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

11.1 Trafododd yr Aelodau bapur gan y Gwasanaeth Ymchwil ar Ddeddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE.